# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2023

Amser: 09.00 - 09.23

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds AS.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Nid oes dim newidiadau i fusnes yr wythnos hon.

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol yn cymryd rhan o bell yn ystod trafodion Cyfnod 3 ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Bydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn y Siambr ac yn gallu cymryd yr awenau pe bai anawsterau technegol.

Cadarnhaodd y Llywydd y bydd toriad technegol byr cyn dechrau trafodion Cyfnod 3 er mwyn caniatáu i baratoadau terfynol gael eu gwneud.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes hefyd y bydd ffotograffydd yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus ar ddechrau Cyfarfod Llawn heddiw i dynnu lluniau o gyfranogwyr y digwyddiad LeadHERship.

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn trafodion Cyfnod 3.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.30pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth 14 Mawrth 2023

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael (30 munud) – *gohiriwyd tan 28 Mawrth*

Dydd Mawrth 21 Mawrth 2023

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein (30 munud) – *gohiriwyd*

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

Dydd Mercher 22 Mawrth 2023 –

- Dadl Fer: James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed) (30 munud) *Gohiriwyd tan 26 Ebrill*

Dydd Mercher 29 Mawrth 2023 –

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Dadl Fer: Huw Irranca-Davies (Ogwr) (30 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i symud Dadl Fer Carolyn Thomas o 24 Mai i 17 Mai a cheisio llenwi'r slot Dadl Fer sydd bellach yn wag ar 22 Mawrth.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Trafododd y Pwyllgor Busnes lythyr ynghylch y tebygolrwydd y caiff Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ei osod yn hwyr a'r diffyg amser craffu y bydd hyn yn ei olygu i bwyllgorau'r Senedd. Codwyd pryderon ynghylch y dull a gymerwyd gan y Llywodraeth yn yr achos hwn i oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar nifer o welliannau a wnaed yn San Steffan sawl wythnos ynghynt.

Nododd y Trefnydd y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi o ran a fyddai'n bosibl symud y ddadl ar y Memorandwm hwn o 14 Mawrth i ddyddiad diweddarach er mwyn caniatáu amser ychwanegol i graffu, neu ymestyn yr amser ar gyfer y ddadl i 45 munud os nad yw hynny'n bosibl.

## 5 Unrhyw Fater Arall

**Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol**

Cafodd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar lafar gan y Trefnydd ar lawer o Femoranda a chytunodd i:

- gyfeirio unrhyw Femoranda atodol pellach a osodir ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar fore 14 Mawrth 2023, gan gydnabod na fyddai fawr ddim amser, os o gwbl, ar gyfer craffu cyn y ddadl a drefnir;
- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar yr holl Femoranda cyfredol ar y Bil Caffael hyd at 23 Mawrth 2023; ac
- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar yr holl Femoranda cyfredol ar y Bil Troseddau Economaidd hyd at 30 Mawrth 2023.

**Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ymghylch Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023**

Nododd y Pwyllgor Busnes lythyr y derbyniodd gopi ohono ar 6 Mawrth, a oedd wedi'i ddosbarthu ar wahân, gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch nifer o ddiffygion yn Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023, y disgwylir iddynt gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mawrth. Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Gweinidog yn ystyried ac yn ymateb i'r llythyr fel mater o flaenoriaeth.

**Cyfraniad gan Gareth Davies AS yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mawrth 2023**

Cododd y Trefnydd gyfraniad a wnaed gan Gareth Davies AS yn ystod Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mawrth, ynghylch darparu safleoedd i deithwyr, a gofynodd a oedd yr Aelod wedi ymddiheuro am yr iaith

a ddefnyddiwyd. Cadarnhaodd y Llywydd ei bod wedi cael ymddiheuriad ac wedi ei dderbyn.